**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**13eg Gorffennaf 2009**

**Penodi Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch**

**Adroddiad gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Ruth Simmons**

**Diben yr Adroddiad**

1 Gofyn bod ystyriaeth yn cael ei roi i gael Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch.

**Cefndir**

2 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi adolygu ei Bolisi Iechyd a Diogelwch, ac fel rhan o'r broses honno, mae'n credu y deuai budd mawr o gael Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch ar yr Awdurdod Tân, a hynny er mwyn rhoi arweinyddiaeth wleidyddol i reolaeth Iechyd a Diogelwch.

**Gwybodaeth**

3 Mae polisi GTAGC yn cydymffurfio â gofynion HS(G)65 "Successful Health and Safety Management" ac OHSAS 18001. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r sefydliad wedi ymrwymo i:

3.1 Ddarparu lle gwaith diogel / systemau gweithio diogel, gyda rheolaeth effeithiol o iechyd, diogelwch a risgiau amgylcheddol i staff, contractwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.

3.2 Gwneud Iechyd a Diogelwch, Rheoli Risg, a Rheoli Colledion yn rhan annatod o reoli perfformiad busnes y sefydliad.

3.3 Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r ddeddfwriaeth sydd i ddod yn berthnasol yn y dyfodol, y Codau Ymarfer cymeradwyedig a'r canllawiau a gydnabyddir gan y diwydiant.

3.4 Hyrwyddo ymgynghori ar y cyd â gweithwyr, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Cyrff Cynrychioliadol ac unrhyw sefydliad perthnasol arall.

3.5 Cydweithredu â rhanddeiliaid er mwyn cynnwys eu pryderon a'u gofynion am Iechyd a Diogelwch yn yr arferion presennol.

4 Y Prif Swyddog Tân sydd yn gyfrifol yn y pen draw am yr ymrwymiadau hyn, a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn gyfrifol am reolaeth o ddydd i ddydd. Rhagwelir y byddai'r Hyrwyddwr mewn cysylltiad â'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol er mwyn cytuno ar gwmpas eu rhan mewn Iechyd a Diogelwch ac, ynghyd â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, byddai'n cymryd rhan mewn archwiliadau ac arolygiadau allanol.

**Argymhellion**

5.1 Bod yr Aelodau'n:
(i) nodi'r wybodaeth a ddarperir, ac yn
(ii) ystyried enwebu Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch.